cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA)
# Tystiolaeth o ddibynyddion eraill

Os yw incwm eich cartref rhwng **£23,400** a **£25,974** bydd angen i chi anfon tystiolaeth o'r ffaith bod unigolyn dibynnol arall yn byw yn eich cartref. Defnyddiwch yr wybodaeth isod i ddarganfod pa dystiolaeth wreiddiol fydd angen i chi anfon i gynorthwyo'ch cais.

Byddwn yn derbyn **llungopïau** o'ch tystiolaeth.

Os yw incwm eich cartref yn **£25,975** neu fwy, ni fydd modd i chi gael LCA.

| Yn fy nghartref i, mae: | Bydd angen i chi anfon: |
|---|---|
| plant dibynnol eraill dan 16 oed sy'n byw gyda mi | • datganiad Budd-dal Plant diweddaraf eich cartref; **neu**<br>• tystysgrif geni'r plentyn; **neu**<br>• hysbysiad Dyfarniad Credyd Treth diweddaraf eich cartref sy'n rhestru bob person ifanc. |
| plant dibynnol eraill 16, 17, 18, 19 neu'n 20 oed ac y maent yn cael hyfforddiant neu addysg bellach amser llawn, sy'n byw gyda mi | • datganiad Budd-dal Plant diweddaraf eich cartref; **neu**<br>• hysbysiad Dyfarniad Credyd Treth diweddaraf eich cartref sy'n rhestru bob person ifanc; **neu**<br>• tystysgrif geni'r plentyn **a** cadarnhad o gofrestriad neu ddyfarniad gan sefydliad addysg bellach fel prawf fod y plentyn wedi ei dderbyn ar gwrs. |